GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

GIG CYMRU NHS WALES

Y Weithrediaeth Executive

Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2024/25 – 2029/30

Crynodeb - Ebrill 2024

Cyflwyniad

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (SPPC) wedi datblygu Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (SWPPC) ar y cyd â phartneriaid ledled Cymru.

Mae'r cynllun yn cyd-fynd â 'Cymru Iachach' a bydd yn ategu gweithrediad y Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu dros y pum mlynedd nesaf, â'r orchwyl i ddechrau yn 2024/25 dan law AaGIC, mewn partneriaeth â'r Rhaglen Strategol a rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gweithlu sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar lefel leol, clwstwr neu batrwm daearyddol arall. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan gontractwyr annibynnol, gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u rheoli yn ogystal â staff a gyflogir gan Fyrddau Iechyd dros y cyfnod 24/7. Ceir hefyd ffocws ar y sawl sy'n ymroi i wasanaethau sy'n cynorthwyo pobl o fewn grwpiau iechyd cynhwysiant.

Yr Achos dros Newid

Datblygwyd cynllun gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Ers ei sefydlu yn 2018 mae AaGIC wedi blaenoriaethu datblygiad y gweithlu gofal sylfaenol yn y meysydd a ganlyn;

- **Cyflenwad cynyddol o ran gweithlu** ar gyfer nifer o grwpiau proffesiynol gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr a deintyddion dan hyfforddiant.
- Sefydliad **fframwaith addysg a hyfforddiant amlbroffesiynol** newydd, gyda chnewyllyn canolog yn AaGIC yn gweithio ochr yn ochr â saith academi Bwrdd Iechyd. Byddant yn hyrwyddo addysg a hyfforddiant ar draws y gweithlu amlbroffesiynol ym maes gofal sylfaenol a chymunedol.
- **Rhaglenni addysg newydd** gan gynnwys y Rhaglen Sylfaen Nyrsys Ymarfer Cyffredinol genedlaethol gyntaf; rhaglen hyfforddiant Nyrsys Deintyddol; buddsoddiad mewn cymwysterau uwch ar gyfer optometryddion i hyrwyddo llwybrau gofal llygaid wedi'u hailgynllunio; ehangiad sylweddol ym maes rhagnodi annibynnol a rhaglen hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr sy'n tanategu'r orchwyl o gyflwyno gwasanaethau fferylliaeth gymunedol newydd.
- Hyrwyddiad **modelau gweithlu newydd** i ategu gofal iechyd darbodus megis cyflwyno rolau Cymdeithion Meddygol, rolau estynedig ar gyfer technegwyr fferyllol a rhagnodwyr cymdeithasol / llyw-wyr gofal sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol.

Fodd bynnag, mae llawer wedi newid ers 2015 ac, o ystyried y materion cynyddol o ran cynaliadwyedd ym maes gofal sylfaenol, roedd cynllun newydd yn angenrheidiol.

Fodd bynnag, erys heriau er gwaethaf twf y gweithlu ym maes gofal sylfaenol ac wynebir anawsterau wrth geisio ymateb i'r cynnydd o ran galw a chymhlethdod. At hynny, mae anfodlonrwydd y cyhoedd â'r GIG yn cynyddu a phrofir heriau cyson wrth geisio bodloni disgwyliadau dinasyddion.

Mae newidiadau demograffig yn effeithio ar y galw am ofal a'r ystod o wasanaethau a sgiliau sydd eu hangen ar y maes gofal sylfaenol. Daw heriau hefyd yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, yn enwedig o ddarogan bod nifer y bobl sy'n byw gyda lluos-gyflyrau hirdymor yn mynd i gynyddu'n sylweddol dros y deng mlynedd nesaf.

Mae datblygiadau technolegol a gwyddonol yn cynnig potensial sylweddol i ail-lunio darpariaeth gofal iechyd, yn enwedig o ran technolegau digidol a gwyddor data. Bydd angen y sgiliau ar ein gweithlu i ymaddasu i'r amgylchedd hwn sy'n prysur newid. Yn wyneb hyn oll, mae angen datblygu cynllun gweithlu a dwysystyried sut i ymsefydlogi, adnewyddu a thrawsnewid er budd adeiladu model gweithlu cynaliadwy sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sut y gwnaethom ddatblygu'r cynllun

Datblygwyd y cynllun drwy gyfrwng dull tair colofn AaGIC sy'n cynnwys cloriannu ymchwil ac arferion gorau, adolygu'r wybodaeth gyfredol am y gweithlu a chynnal cyfnod helaeth o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol drwy ystod y maes gofal sylfaenol.

Ymchwil ac arferion gorau

Adolygwyd adolygiadau cyhoeddedig, erthyglau, adroddiadau a rhagor o ddeunydd o eiddo ystod eang o gyrff gan gynnwys cyrff proffesiynol, melinau trafod, dogfennau polisi ac academia fel rhan o ddatblygiad y cynllun hwn. Roedd yr ymchwil yn cydnabod pwysigrwydd modelau gofal yn seiliedig ar dimau amlbroffesiynol, sy'n cynnull gweithwyr proffesiynol ynghyd i gydweithio er budd gwella ansawdd ac effeithlonrwydd gofal a'r modd o'i gyrchu.

Mae ffactorau fel beichiau gwaith gormodol, gorflinder gwaith a phrinder gweithlu gofal sylfaenol yn dwysáu'r her hon. Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:

- Gofal cleifion o ansawdd uchel wedi'i ddarparu gan dimau amlbroffesiynol sy'n gweithio mewn partneriaeth â dinasyddion i gynnig gofal diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg, sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Pwysigrwydd ystyried y lliaws o ffactorau sy'n cyfrannu at les y gweithlu wrth fynd ati i gynllunio gweithlu mewn modd dyneiddiol.
- Effaith datblygiadau technolegol o ran galluogi dulliau newydd.
- Yr angen am fuddsoddiad i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu.
- Yr angen am gynllunio hirdymor ar gyfer gweithlu'r dyfodol.

Data a dadansoddeg

Adolygwyd y ffynonellau o wybodaeth am y gweithlu a oedd ar gael ar draws y system gofal sylfaenol yng Nghymru. Er gwaethaf ffynonellau cyfyngedig o ddata a gwybodaeth ar gyfer rhai elfennau o ofal sylfaenol, nodwyd yr heriau gweithlu allweddol a ganlyn:

Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
Dirywiad o ran trefniadau partneriaeth a diffyg cynlluniau olyniaeth pendant a rhaglenni datblygu ar gyfer rheolwyr practisau a nyrsys mewn practisau. Hefyd, ceir heriau o ran recriwtio a chadw staff gweinyddol anghlinigol a staff cymorth eraill.	Mae bylchau sylweddol yn y gweithlu drwy ystod y maes deintyddol gydag amrywiadau daearyddol. Mae darpariaeth gwasanaethau'r GIG mewn sefyllfa fregus yn sgil newidiadau cytundebol a phwysau economaidd ehangach. Mae'r rhain wedi'u harchwilio drwy gyfrwng y Cynllun gweithlu deintyddol strategol.

Gofal sylfaenol brys	Nyrsio
Mae'r galw ar y gwasanaethau hyn yn sylweddol ac roedd cynaliadwyedd y gweithlu'n thema allweddol yn Adroddiad Blynyddol 2023 a Adolygwyd gan Gymheiriaid gydag atynnu a chadw'r gweithlu clinigol uwch yn thema gyffredin.	Mae proffil oedran Nyrsys Ymarfer Cyffredinol (GPN) yn destun pryder, gyda thua 50% o'r 1,400 o GPN yng Nghymru dros 50 oed. Mae diffyg llwybrau gyrfa a chyfleoedd datblygu yn effeithio ar gyfraddau recriwtio a chadw nyrsys gofal sylfaenol.
Optometreg	**Fferylliaeth**
Mae llai o heriau'n ymwneud â'r gweithlu ym maes optometreg. Er hynny, mae diffyg capasiti hyfforddi ym maes optometreg gofal sylfaenol.	Mae beichiau'r gweithlu o ran gwasanaethau fferyllol wedi cael eu harchwilio drwy gyfrwng y Cynllun Gweithlu Fferyllol Strategol.
Iechyd cynhwysiant	
Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ei adroddiad yn dilyn ymchwiliad i brofiad carcharorion yng Nghymru o iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau oedolion. Amlygodd yr adroddiad fod heriau recriwtio a chadw o ran gweithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol carchardai.	

Ymgysylltiad

Cafwyd ymgysylltiad helaeth rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2023. Bu i dros 1,500 o bobl drwy ystod y maes gofal sylfaenol ymroi i drafodaethau a oedd yn pontio 13 o ddigwyddiadau ymgysylltu cenedlaethol a lleol, gweminarau a sesiynau galw heibio pwrpasol, 90 o grwpiau rhanddeiliaid ac arolwg ymgysylltu pwrpasol a gafodd dros 120 o ymatebion. Dyma'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr ymgysylltu a'r ymgynghori:

- **Cyfraddau cadw, beichiau gwaith a lles** – amlygwyd y diffyg pwyslais ar gadw staff drwy ystod y maes gofal sylfaenol, gyda ffactorau fel baich gwaith, straen a gorflinder yn cael eu hystyried yn rhesymau creiddiol dros ymadael â'r gweithlu.
- **Ffocws ar ataliaeth** – gan flaenoriaethu iechyd y boblogaeth mae angen ystyried modelau gwasanaeth a modelau gweithlu a fydd yn diwallu'r anghenion orau i'r dyfodol.
- **Isadeiledd** - mae diffyg llefydd/gofodau ffisegol yn llesteirio gwaith/ hyfforddiant effeithiol ac yn peri risg i brosesau recriwtio i'r dyfodol. Mae angen datrysiadau creadigol a buddsoddiad i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, datblygwyd camau gweithredu allweddol a'u rhoi ar brawf yn sgil ymgynghoriad pum wythnos yn haf 2023. Cafwyd ymatebion gan sefydliadau gan gynnwys byrddau iechyd, cyrff proffesiynol yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Cafwyd cefnogaeth sylweddol o blaid yr ystod o gamau gweithredu a gynigiwyd.

Y Gweithlu gofal sylfaenol

Mae gweledigaeth wedi'i datblygu a'i mireinio ar y cyd â rhanddeiliaid, y gellir ei gweld isod. Mae'n adlewyrchu'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgil y broses:

Y 10 mlynedd nesaf: Ein gweledigaeth ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol

Bydd pobl yn cael cynhaliaeth gan dimau amlbroffesiynol a fydd yn cydweithio i ddarparu gofal cyfannol ac integredig.

Bydd pobl yn elwa o ystod gyson o wasanaethau ym maes gofal sylfaenol. Bydd maint a ffurf y gweithlu'n adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth leol ac yn sicrhau deilliannau teg.

Bydd technoleg a'r defnydd o ddata'n chwarae rhan amlycach ac yn helpu i ddarparu gofal hygyrch, o ansawdd uchel, wedi'i deilwra yn ôl anghenion pobl.

Bydd pobl yn cael eu denu i weithio ym maes gofal sylfaenol a chanddynt y dewis a'r hyblygrwydd i ddatblygu ar hyd eu llwybr gyrfa, gyda modd o gyrchu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel.

Bydd ein gweithlu'n darparu gofal eang a chyfannol ei rychwant sy'n gydnaws ag anghenion pobl, gan ganolbwyntio ar atal, gofalu a thrin.



Bydd ein gweithlu'n meddu ar ystod ehangach o sgiliau ac yn cael cymorth i ddatblygu er budd diwallu anghenion cymunedau.

Bydd ein gweithlu'n cael cymorth i ddefnyddio sgiliau estynedig ar draws ystod o leoliadau, gan gyfuno dewisiadau ar sail gwaith a ffordd o fyw.

Camau Gweithredu Allweddol

Mae'r cynllun yn nodi dau ddeg chwech o gamau allweddol, i'w cyflawni dros gyfnod o bum mlynedd, sy'n cyd-fynd â themâu Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r themâu rhyngddibynnol hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n ategu datblygiad gweithlu cynaliadwy, gyda lles y gweithlu wrth wraidd pob un ohonynt. Mae'r camau gofal sylfaenol penodol yn y cynllun hwn yn seiliedig ar allbwn y cyfnod ymgysylltu ond hefyd wedi'u llywio gan ymchwil a gwybodaeth am y gweithlu.

Camau	Gweithlu ymrwymedig, brwdfrydig ac iach	Modelau gweithlu di-dor	Cyflenwi a siapio'r gweithlu	Addysg a dysg ragorol
	Denu a recriwtio	Arweinyddiaeth ac olyniaeth	Datblygu gweithlu sy'n barod yn ddigidol	Camau gweithredu ychwanegol

Allweddol	Disgrifiad o'r camau gweithredu
1	Mesur profiad, ymrwymiad a lles staff ym maes gofal sylfaenol.
2	Cynorthwyo staff sy'n newydd i ofal sylfaenol gan gynnwys y rhai sydd newydd gymhwyso.
3	Llunio canllawiau goruchwylio i gynorthwyo timau amlbroffesiynol tra'n datblygu rhaglen i uwchsgilio'r gweithlu o ran ymarfer goruchwyliol.
4	Mapio amrywiaeth o fuddion staff nad ydynt ar gael ar hyn o bryd i staff gofal sylfaenol ac archwilio'r potensial i ehangu'r modd o'u cyrchu.
5	Datblygu a lansio ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i ddinasyddion i'w helpu i feithrin dealltwriaeth o'r gweithlu amlbroffesiynol.
6	Cynorthwyo cyflogwyr gofal sylfaenol i ddeall cwmpasau ymarfer gweithwyr proffesiynol unigol yn ogystal â'r gofynion o ran rheoleiddio a goruchwylio.
7	Ymgorffori rolau newydd ym maes gofal sylfaenol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y boblogaeth.
8	Gwella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ym maes gofal sylfaenol i ddatblygu cronfa weithlu gynaliadwy.
9	Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio materion o ran cadw staff drwy ystod y maes gofal sylfaenol, yn unol â'r rhaglen gadw genedlaethol.
10	Cynyddu nifer y prentisiaethau o fewn gwasanaethau iechyd sylfaenol ac helaethu'r niferoedd sy'n cael eu recriwtio drwy gyfrwng y llwybr prentisiaeth.
11	Datblygu atebion cynaliadwy er budd y gweithlu meddygaeth deulu, gan annog y gweithlu i ymgymryd â rolau partneriaeth / cyflogedig a lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon locwm.
12	Archwilio dichonoldeb sefydlu system gronfa/banc arbenigol ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol.
13	Gwella'r Modd o Gyrchu Addysg a Hyfforddiant ar gyfer y gweithlu presennol.

Camau	Gweithlu ymrwymedig, brwdfrydig ac iach	Modelau gweithlu di-dor	Cyflenwi a siapio'r gweithlu	Addysg a dysg ragorol
	Denu a recriwtio	Arweinyddiaeth ac olyniaeth	Datblygu gweithlu sy'n barod yn ddigidol	Camau gweithredu ychwanegol

Allweddol	Disgrifiad o'r camau gweithredu
14	Datblygu gweithlu'r dyfodol drwy ehangu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ym maes gofal sylfaenol.
15	Hybu'r cyfleoedd i weithredu modelau gwahanol e.e. rolau cylchdro, modelau gyrfa bortffolio a gweithio hyblyg ar draws y gweithlu amlbroffesiynol.
16	Adolygu cynlluniau cymhelliant presennol i atynnu a recriwtio pobl i'r maes gofal sylfaenol.
17	Mynd ati i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal sylfaenol i atynnu gweithlu'r dyfodol, gan sicrhau bod gofal sylfaenol yn cael ei ystyried o fewn Strategaeth Gyrfaoedd pob oed.
18	Darparu modd teg o gyrchu rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer ein gweithlu gofal sylfaenol uwch.
19	Parhau i gynnig rhaglen arweinyddiaeth bwrpasol ar gyfer arweinwyr Clystyrau a Chydweithrediadau, gan ddatblygu ymhellach y cynnig arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr.
20	Creu Cymrodoriaeth Glinigol ym maes anghydraddoldebau iechyd / iechyd y boblogaeth i nodi camau gweithredu y dylid eu hymgorffori mewn rhaglenni cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru.
21	Datblygu a darparu atebion o ran arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r strategaeth arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.
22	Ystyried y map ffordd digidol ar gyfer gofal sylfaenol i asesu'r goblygiadau o ran anghenion y gweithlu i'r dyfodol, gan gynnwys addysg a hyfforddiant.
23	Cyflwyno adnodd cymhwysedd digidol newydd AaGIC ym maes gofal sylfaenol, gan nodi unrhyw anghenion/gofynion o ran addysg a hyfforddiant.
24	Gwella'r modd o gyrchu technolegau ymgolli ar gyfer y gweithlu fel rhan o'u haddysg gofal iechyd a'u datblygiad yng Nghymru.
25	Hyrwyddo argaeledd hyfforddiant iaith Gymraeg i bob aelod o staff gofal sylfaenol wrth ddatblygu cynlluniau hyfforddiant a chynlluniau recriwtio cynaliadwy.
26	Cynorthwyo grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau dan anfantais gymdeithasol i gyrchu gyrfaoedd gofal sylfaenol drwy gyfrwng rhaglen ehangu mynediad AaGIC.

Buddion

Bydd cyflawni'r cynllun cynhwysfawr hwn yn cynnig buddion i ddinasyddion, y gweithlu gofal sylfaenol yn ogystal â byrddau iechyd a chyflogwyr. Byddant oll yn allweddol i ymwreiddio'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Mae'r buddion hyn yn cynnwys:

- Darpariaeth gofal cyfannol, amserol, integredig gan dimau amlbroffesiynol sy'n gallu diwallu anghenion y gymuned leol.
- Amser cynyddol er budd addysgu, hyfforddi, gwella gwasanaethau ac ymchwil.
- Llwybrau gyrfa a dilyniant clir a phendant a mwy o drefniadau gweithio hyblyg (prentisiaethau, gyrfaoedd portffolio).
- Hyfforddiant sydd wastad o ansawdd uchel, gyda chyfleoedd cynyddol i gyrchu lleoliadau gofal sylfaenol.
- Gwell cyfraddau recriwtio a chadw ym maes Gofal Sylfaenol.
- Cyflawni'r nod pedwarplyg: ansawdd uchel, gwell deilliannau a phrofiad, gofal iechyd sy'n sicrhau gwell gwerth, a gweithlu ymrwymedig.
- Gweithlu gofal sylfaenol datblygedig yng Nghymru gyda sgiliau clinigol ac addysgol yn ogystal â sgiliau ymchwil ac arweinyddiaeth.

Gweithrediad

Bydd y camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn yn cael eu cyflawni dros gyfnod o bum mlynedd, gan gydnabod yr angen am gapasiti ac adnoddau i'w hategu. Bydd cynllun gweithredu yn dilyn.

Cydnabyddiaethau

Hoffem fynegi ein diolch i bawb a gyfrannodd at y camau ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod 2023 ac am eich cyfraniad gwerthfawr er budd datblygu'r cynllun hwn. Edrychwn ymlaen at eich cyfraniad parhaus i ysbrydoli ac i lywio'r cynlluniau gweithredu ac i wireddu uchelgais y cynllun hwn.

Nid yw'r GIG o unrhyw werth heb ei weithlu. Rydym yn ddiolchgar am waith caled ein timau gofal sylfaenol sy'n gweithio'n ddiflino i gynorthwyo dinasyddion Cymru.

Alex Howells,
Prif Weithredwr,
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Sue Morgan,
Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Arweinydd Rhaglen Strategol,
Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Nicola Prygodzicz,
Prif Weithredwr,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Phrif Weithredwr Arweiniol Gofal Sylfaenol yng Nghymru